

Gwasanaethau Eraill

Dosbarthu Cartref

Gallwn ddosbarthu meddyginiaethau i'ch cartref, yn rhad ac am ddim. Rydym yn blaenoriaethu'r rhai na allant fynychu'r fferyllfa. Gofynnwch i ni am ein gwasanaeth dosbarthu os ydych chi'n meddwl ei fod yn rhywbeth sydd ei angen arnoch chi.

Cynhwysyddion Meddyginiaeth

Mae pob meddyginiaeth yn cael ei dosbarthu naill ai yn eu pecyn gwreiddiol, neu mewn cynhwysyddion neu mewn cynhwysyddion na all plant eu hagor, oni bai eich bod yn gofyn yn wahanol (e.e. os oes gennych chi broblemau deheurwydd). [Cadwch bob meddyginiaeth allan o gyrraedd a golwg plant.](#) Gall ein fferylllydd eich cynghori ar storio diogel.

Casgliad Presgripsiynau

Os ydych yn glaf gyda Meddygfa Woodlands, Llynfi, Bron-Y-Garn neu Cymmer, gallwn gasglu eich presgripsiynau. I archebu eich meddyginiaeth rheolaidd, ffoniwch yr Hyb Presgripsiynau ar 01656 311 010 (Penybont) - bydd rhai meddygfeydd hefyd yn defnyddio My Health Online.

Gwerthu Meddyginiaethau

Rydym yn cadw ystod eang o feddyginiaethau, fitaminau a mwynau.

Gwasanaethau Preifat

Rydym yn darparu gwasanaethau preifat, gan gynnwys Oedi Cyfnod a Mesur Pwysedd Gwaed, am ffi. Gofynnwch i un o'r staff am ragor o fanylion am yr hyn rydym yn ei gynnig.

Gwybodaeth Bellach

Canmoliaeth a Chwynion

Ein nod yw darparu'r safon uchaf posibl o wasanaeth a gofal. Rhowch eich barn ar y gwasanaeth rydym yn ei ddarparu yn Fferyllfa Nanty. Os oes gennych unrhyw sylwadau, awgrymiadau neu gwynion, siaradwch ag Anna a'r tîm. Rydym yn croesawu pob adborth ac mae gennym weithdrefn gwyno sy'n bodloni meini prawf cenedlaethol - gall Anna roi rhagor o wybodaeth i chi, neu gallwch fynd i www.nantypharmacy.co.uk.

Cwsmeriaid Anabl

Os oes angen cymorth pellach arnoch, siaradwch ag aelod o'r tîm.

Pan fyddwn ni ar gau

Mae cyngor a gwybodaeth iechyd, gan gynnwys manylion gwasanaethau iechyd eraill, ar gael gan GIG 111 Cymru 24 awr y dydd, naill ai drwy ddeialu 111 neu fynd ar-lein yn www.111.wales.nhs.uk

Mae'r fferyllfa hon yn cydymffurfio â'r Ddeddf Diogelu Data a chod y GIG ar gyfrinachedd cleifion.

Mae ein staff yn gweithio'n galed i ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl i chi. Cofiwch eu trin gyda'r cwrtseisi a'r parch y maent yn eu haeddu. Rydym yn cadw'r hawl i wrthod darparu gwasanaethau i unigolion sy'n ymddwyn mewn modd treisgar, byggythiol neu ymosodol.



FFERYLLFA NANTY

77A High Street
Nantyffyllon
Maesteg
CF34 0BT

☎ neu 📞 01656 732 277

🌐 www.nantypharmacy.co.uk

✉ anna@nantypharmacy.co.uk

AR AGOR

Dydd Llun - Dydd Gwener
9yb-5:30yh

Darparu gwasanaethau'r GIG



Bwrdd Iechyd Prifysgol
Cwm Taf
University Health Board

Mae'r fferyllfa hon yn eiddo i A&R Pharma Ltd

Ein Gwasanaethau

Croeso i Fferyllfa Nanty! Rydym yn cynnig ystod eang o wasanaethau a chyfleusterau i chi a'ch anwyliaid. Gweler isod am fanylion, neu gofynnwch i un o'n staff cyfeillgar sut y gallwn eich helpu.

Gwasanaethau a ariennir gan y GIG

Presgripsiynu

Rydym yn dosbarthu presgripsiynau'r GIG ac mae gennym wasanaeth cyfanwerthwr cyflym ac effeithlon.

Presgripsiynau Rheolaidd

Rydym ni'n dosbarthu presgripsiynau rheolaidd y GIG a gan eich Meddyg Teulu. Gofynnwch i ni am ragor o wybodaeth am y gwasanaeth hwn.

Iechyd Cyhoeddus

Mae'r tîm wedi ymrwymo i roi cyngor ar eich meddyginiaeth; rheoli eich anhwylderau; a dewisiadau ffordd iach o fyw. Os na allwn eich helpu, byddwn yn cyfeirio at y cymorth sydd ei angen arnoch.

Adolygiad o Feddyginiaethau wrth Rhyddhau'r Claf

Os ydych wedi cael eich rhyddhau o'r ysbyty yn ddiweddar, gallwn sicrhau bod unrhyw newid mewn meddyginiaeth yn cael ei gyhoeddi'n gywir a'ch helpu i ddeall unrhyw feddyginiaethau newydd.

Gwaredu Meddyginiaethau Diangen

Dychwelwch yr holl feddyginiaethau diangen i'r fferyllfa, lle byddwn yn cael gwared arnynt yn ddiogel. Mae'n bosibl y byddwn angen manylion ychwanegol gennych chi mewn rhai amgylchiadau, yn dibynnu ar natur y feddyginiaeth rydych chi'n ei dychwelyd. Sylwch y dylid cael gwared ar yr holl eitemau miniog sydd wedi'u defnyddio drwy ffonio'r llinell Sharps Waste ar 0300 123 9208.

Cyflenwad Brys o Feddyginiaethau

Os ydych wedi rhedeg allan o'ch meddyginiaethau arferol mewn argyfwng, ac nad ydych yn gallu cael presgripsiwn gan eich meddyg teulu, efallai y gallwn helpu.

Brechiadau rhag y fflw y GIG

Gallwn ddarparu brechiadau rhag y fflw y GIG am ddim i'r rhai sy'n gymwys yn ystod tymor y fflw. Gofynnwch i ni am fanylion ar ofynion cymhwyster.

Gwasanaeth Anhwylderau Cyffredin

Rydym yn darparu cyngor a thriniaeth ar gyfer anhwylderau cyffredin a chyflyrau hunangyfngol yn rhad ac am ddim, heb fod angen ymweliad â'r meddyg teulu. Gwiriwch gyda ni os gallwn eich helpu cyn trefnu apwyntiad gyda'ch meddyg teulu. Am restr lawn o amodau a chymhwysedd ar gyfer y gwasanaeth hwn, gofynnwch i un o'r tîm.

Gwasanaethau Atal Cenhedlu

Os ydych yn chwilio am "bilsen y bore wedyn", gallwch siarad â'n fferylllydd cyfeillgar i drafod opsiynau priodol, yn rhad ac am ddim. Efallai y bydd y fferylllydd hefyd yn gallu eich helpu gydag atal cenhedlu parhaus.

Gwasanaeth Presgripsiynu Annibynnol

Mae ein fferylllydd Anna yn Bresgripsiynydd Annibynnol cymwys, ac yn gallu cynghori, trin ac atgyfeirio ar gyfer ystod eang o gyflyrau, yn dilyn ymgynghoriad.

Stopio Ysmygu

Os ydych yn bwriadu rhoi'r gorau i ysmygu, gallwn ddarparu cwrs o gyngor a thriniaeth, yn rhad ac am ddim, i'ch helpu.

Defnyddio Cyffuriau dan Oruchwyliaeth

Gall cleifion sy'n cael triniaeth am ddibyniaeth ar sylweddau gael eu recriwtio i'r gwasanaeth hwn trwy eu darparwr triniaeth.

Cyfnewid Nodwyddau

Mae'r gwasanaeth hwn wedi'i gynllunio i leihau'r risg o firysau a gludir yn y gwaed a heintiau eraill mewn pobl sy'n chwistrellu sylweddau eu hunain. Gellir cael chwistrellau a nodwyddau glân o'r fferyllfa yn rhad ac am ddim, a dylid dychwelyd offer ail-law i ni i'w waredu.